

Cadw'n yn ddiogel yn ystod y Gaeaf

Oeddech chi'n gwybod bod dros 100 o danau mewn cartrefi yng Nghymru wedi cael eu hachosi gan offer gwresogi yn ystod 2016-2017?

Gwresogi eich cartref

Tanau agored

- Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio tanau agored a llosgwyr coed tân. Defnyddiwch gard tân i'ch diogelu rhag gwreichion poeth bob amser
- Gwnewch yn siŵr bod marwor dan reolaeth ac wedi cael eu diffodd yn iawn cyn i chi fynd i'r gwely
- Cadwch simneiau a ffliwiau yn lân gan eu cadw a'u cynnal yn dda
- Peidiwch â chadw coed tân neu danwydd wrth ymyl tanau agored a stofiau llosgi coed tân

I gael rhagor o wybodaeth am ddiogelwch simneiau, ewch at www.nacs.org.uk.

Defnyddio gwresogyddion cludadwy

- Cadwch wresogyddion yn ddigon pell rhag llenni a dodrefn a pheidiwch byth â'u defnyddio i sychu dillad
- Tynnwch blygiau gwresogyddion trydan bob tro pan fyddwch chi'n mynd allan neu'n mynd i'r gwely